



## Partneriaeth Anabledd Dysgu Sir y Fflint

### Mae hwn yn dweud wrthy ch beth mae'r Bartneriaeth yn ei wneud a sut



Bydd yn helpu pawb sy'n aelodau o'r bartneriaeth i wybod beth a ddisgwylir ganddyn nhw.



Mae'r Bartneriaeth ar gyfer pobl ag Anableddau Dysgu yn Sir y Fflint.



Mae'r Bartneriaeth yn sicrhau fod popeth sy'n cael ei ysgrifennu yn Gwireddu'r Addewidion yn digwydd yn Sir y Fflint.

Mae Gwireddu'r Addewidion yn dweud



### 1. Mae gan bobl yr un gwerth a statws â phawb arall ac mae ganddyn nhw hawl cyfartal i ddisgwyl



- addysg dda
- iechyd da
- tai da
- diogelwch a sicrwydd ariannol
- cael eu hamddiffyn rhag newid
- rolau positif yn y gymuned ac yn y teulu
- cyfle i ddod o hyd i waith
- cyfle i ddysgu a gwella'u sgiliau
- hawliau dinesig





2. Mae gan bobl hawl i wneud penderfyniadau pwysig drostyn nhw eu hunain neu gyda chymorth os oes angen.

3. Mae ganddyn nhw hawl i gael cymorth gan eu cymunedau a'u teuluoedd.



4. Mae ganddyn nhw hawl i gael unrhyw gymorth arall a fydd yn eu helpu i gyflawni eu dymuniadau a'u nodau.

## Beth ydym yn ei wneud



Rydym yn dod â phobl a sefydliadau at ei gilydd.



Rydym yn gofalu fod pobl yn gallu cymryd rhan a dweud eu dweud.

Byddwn yn gwneud darnau o waith yn ôl yr angen.




Byddwn yn rhannu adroddiadau gyda grwpiau a chyfarfodydd eraill i roi gwybod iddynt beth yw ein barn.



Rydym yn gwirio a yw gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu a gofalwyr teuluol o safon uchel. Rydym yn cael ein cynnwys mewn ymgynghoriadau a chynlluniau neu newidiadau a fydd yn effeithio ar wasanaethau.

o Er enghraifft: cyfrannu at Gynllun Comisiynu AD

## Sut mae'r bartneriaeth yn gweithio



Rydym yn cyfarfod o leiaf 5 gwaith y flwyddyn.

Rydym yn gwahodd pobl i ddod i siarad am wahanol wasanaethau yn Sir y Fflint i ddarganfod beth maent yn ei wneud.



Byddwn yn rhoi gwybod i'r Cyngor a yw'r

Gwasanaethau'n gwneud eu gwaith yn dda.

Er enghraifft:

- cyfrannu at Fframwaith Blynyddol Adroddiadau'r Cyngor



Ambell waith rydym yn cynnal cyfarfodydd agored y gall unrhyw un eu mynychu.



Rydym yn ysgrifennu adroddiad blynyddol. Mae'n cael ei osod ar wefan Sir y Fflint. Gall pobl gael copi papur os ydyn nhw'n dymuno.



Bydd cylch gorchwyl y Bartneriaeth Gynllunio'n cael ei gosod ar wefan Sir y Fflint. Gall pobl gael copi papur os ydyn nhw'n dymuno.

## Y bobl sy'n aelodau o'r Bartneriaeth yw:



- 4 o bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, y cynrychiolwyr.
- 4 cynrychiolydd o Anableddau Dysgu Sir y Fflint



- Rheolwr Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol y Gwasanaethau Anableddau Dysgu
- Gwasanaeth Anabledd Dysgu Cymunedol
  - Rheolwr Tîm Gwaith Cymdeithasol
  - Rheolwr Tîm Iechyd
- 3 cynrychiolydd Darparwyr Gofal Annibynnol ac 1 cynrychiolydd Darparwr Gofal Mewnol
- 4 cynrychiolwyr o asiantaethau gwirfoddol
- Cynrychiolydd o'r Tîm Cyswllt Iechyd
- Swyddog Cynllunio a Datblygu



- Bydd pobl eraill yn dod i gyfarfodydd yn ôl yr angen. Gall hyn gynnwys:
  - Cynrychiolwyr addysg bellach neu golegau
  - Pobl sy'n cynrychioli'r sector Tai
  - Pobl eraill

## Bydd y Bartneriaeth yn:



Bydd gan y Bartneriaeth gyd-gadeirydd sef naill ai rhywun sy'n defnyddio'r gwasanaethau neu gynrychiolydd o'r Fforwm.



Byddwn yn hysbysebu am gyd-gadeirydd pan fydd angen un arnom.

Nid yw'r cyd-gadeirydd a etholir yn cael ei dalu. Byddant yn cael hawlio costau teithio a chymorth i ddod i'r cyfarfodydd.



Bydd y Swyddog Cynllunio a Datblygu a'r Gweinyddwr yn cynorthwyo'r Bartneriaeth. Byddant yn trefnu'r cyfarfodydd a'r papurau.



Rhaid i'r papurau fod yn barod bythefnos cyn y cyfarfod. Rhaid i bob papur fod ar ffurf *Easy Read*.



Bydd y cofnodion yn cael eu hanfon at bob gweithiwr yn y Gwasanaethau Anabledd Dysgu ar ôl y cyfarfod.

Bydd y cofnodion yn cael eu hanfon hefyd at aelodau o'r Bartneriaeth Cynllunio yn eu harddull dewisedig.



Cafodd hwn ei adolygu ym mis Mai 2015. Bydd yn cael ei wirio eto ym mis Mai 2016.



Os ydych am siarad â rhywun ynglŷn â'r Bartneriaeth neu os hoffech gopi papur o'r cofnodion, gallwch ffonio 01352 701082

## Rheolau'r Bartneriaeth



Dim ond un person sy'n cael siarad ar unwaith

Dim torri ar draws

Defnyddio geiriau syml



Diffoddwch ffonau symudol



Gwrandewch ar eich gilydd a lleisiwch eich barn

Parchwch eich gilydd

Byddwch yn brydlon



Dylem gymryd egwyl yn ôl yr angen



Defnyddiwch y cardiau STOP yn gywir



Rhaid i chi dderbyn y penderfyniadau y mae pawb arall wedi'u gwneud os nad ydych yn y cyfarfod.